

# Newyddlen Eiriolaeth

Rhifyn Rhif 8 Hydref 2024

## Newyddion Eiriolaeth

### Prosiect HOPE



#### Eiriolaeth Wirfoddol Annibynnol HOPE

Yn eich cefnogi chi i fod yn wybodus, i rannu eich barn a chael eich cynnwys



Yno i chi a chi yn unig

Yn gwrandao arnoch chi a'ch cefnogi chi fel eich bod yn gallu gwneud eich penderfyniadau eich hun

Rhywun i'ch helpu chi gael gwybodaeth, a'i deall, a gwneud penderfyniadau gwybodus

Rhywun i'ch cynrychioli chi os ydych eu hangen nhw

Rhywun i'ch helpu chi rannu eich llais

#### Eiriolaeth Wirfoddol Annibynnol HOPE

Bydd Eiriolwyr Gwirfoddol Annibynnol hyfforddedig HOPE (Helpu eraill i gymryd rhan ac ymgysylltu) yn gwrandao a chefnogi chi i ddweud yr hyn sy'n bwysig i chi.

Mae ein gwasanaeth eiriolaeth yn annibynnol i'n gwasanaethau ac asiantaethau eraill. Mae am ddim i unrhyw un sy'n 50+ oed, neu sy'n gofalu am berson hŷn.

#### Beth all fy eiriolwr ei wneud?

Gall eich eiriolwr eich helpu chi i:

- Sicrhau bod pobl yn gwrandao ar eich safbwyntiau, dymuniadau a theimladau er mwyn i chi arwain y penderfyniad
- Cael y cymorth iawn pan rydych ei angen
- Cael cefnogaeth i ddweud beth sy'n bwysig i chi a pham
- Deall gwybodaeth am wasanaethau neu eich hawliau
- Deall eich opsiynau a'ch dewisiadau
- Eich gymuso i'ch helpu eich hun yn y dyfodol ac i hunan-eirioli yn y pen draw.

"Fy eiriolwr oedd yr unig un a oedd yn gwrandao arnaf i, a dim ond fi, a oedd yn deall popeth a ddwyedais ac fy helpu i ddod o hyd i'm ffordd ymlaen".

#### Beth na all eich eiriolwr ei wneud?

Mae Eiriolwyr Gwirfoddol Annibynnol HOPE yn darparu ymyrraeth gynnar, cymorth cyn argyfwng. Gallant helpu gyda:

- Sefyllfaoedd gofal iechyd a chymdeithasol cymhleth, fel rhyddhau cleifion o ystybai, cynllunio gofal a chymorth ac asesiadau
- Cefnogi pobl sydd heb allu. Gall ein Prosiect Eiriolaeth Dementia helpu gyda hyn.
- Rhoi cyngor o unrhyw fath. Mae eiriolwyr yn eich cefnogi i wneud eich penderfyniadau eich hun
- Prosesu hawliadau budd-daliadau, rhoi cyngor ar fudd-daliadau, neu fyfyrchu tribiwnlysoedd
- Cynllunio ariannol, rhoi cyngor ariannol, trin arian neu siopa
- Cyfeillio, cwseola neu gyfyngu
- Eiriolaeth gyfreithiol neu weithredu fel gweithredydd ewyllys.

#### Ynghylch y gwasanaeth

Mae'r gwaith rydym yn ei wneud yn gyfrinachol. Mae hynny'n golygu y byddwn bob amser yn siarad â chi cyn trafod eich gwybodaeth gydag unrhyw un arall.

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel ac mae gennych yr hawl i weld eich cofnodion eich hun. Byddwn yn eich cefnogi i gael mynediad atynt os ydych yn dymuno hynny.

Os ydych chi'n teimlo eich bod mewn perygl o niwed, gamdriniaeth neu esgeuloso, gallwn edrych ar ffyrdd o'ch helpu i deimlo'n ddiogel.

Rydym yn croesawu pob adborth am ein gwasanaeth. Os oes gennych unrhyw sylwadau, canmliaeth neu gwynion am y gwasanaeth rydych wedi ei dderbyn, e-bostiwch [advocacy@agecymru.org.uk](mailto:advocacy@agecymru.org.uk)

"Gwnaeth fy eiriolwr i mi deimlo'n hyderus i siarad drosaf fy hun. Roeddent wrth fy ochr, yn cymryd fy ochr ac yn sicrhau bod fy mam, nid yn unig yn cael ei glywed, ond yn cael ei ddeall go iawn".



Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn [www.agecymru.org.uk/advocacy](http://www.agecymru.org.uk/advocacy)

Os ydych yn creu y gallai HOPE eich cefnogi chi, e-bostiwch [advocacy@agecymru.org.uk](mailto:advocacy@agecymru.org.uk) neu foniwch 029 2043 1555

Age Cymru, Llawr Isaf, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD  
Ffôn: 029 2043 1555  
E-bost: [enquiries@agecymru.org.uk](mailto:enquiries@agecymru.org.uk)  
[www.agecymru.org.uk](http://www.agecymru.org.uk)

Dilynwch ni ar:

[facebook.com/agecymru](https://www.facebook.com/agecymru)  
[twitter.com/agecymru](https://twitter.com/agecymru)



Mae Age Cymru yn elusen galfrestredig 1128436, cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Gweler uchod am ein swyddfa gofrestrdig. ©Age Cymru 2022

## Dolen i [daflen HOPE](#)

Mae HOPE yn brosiect partneriaeth gyda phartneriaid lleol Age Cymru ac Age Connects. Mae'n cefnogi pobl i ymgysylltu, cymryd rhan, dod o hyd i wybodaeth, lleisio eu barn, deall eu hawliau, gwneud dewisiadau, rhannu profiadau, codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth, a datblygu sgiliau a gwybodaeth.

Mae HOPE yn darparu cefnogaeth eiriolaeth annibynnol ar lefel gymunedol trwy ystod o fodolau eiriolaeth. Mae HOPE yn recriwtio ac yn hyfforddi a chefnogi'r unigolion sy'n gwirfoddoli i gefnogi'r prosiect. Mae HOPE yn cefnogi pobl cyn gynted â phosib pan fydd problem yn dod i'r amlwg, er mwyn rhwystro'r sefyllfa rhag troi'n argyfwng.

Mae HOPE yn darparu eiriolaeth annibynnol ar gyfer pobl hŷn (50+) a'u gofalwyr ledled Cymru. Mae staff a gwirfoddolwyr HOPE hefyd yn ymgysylltu â chymunedau sy'n ein helpu i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarparwn yn addas ar gyfer anghenion pobl hŷn a gofalwyr yn eu hardaloedd. Nid ydyn ni eisiau cynnig gwasanaethau sydd eisoes yn cael eu cynnig gan eraill, ond rydyn ni eisiau sicrhau ein bod yn cydweithio gyda'r darparwyr a'r fforymau eiriolaeth presennol ledled Cymru.

Mae HOPE wedi sefydlu rhaglen o hyfforddiant, gweithdai a digwyddiadau sy'n galluogi eiriolwyr ledled Cymru i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae hyfforddiant a gweithdai ar gael ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill a fyddai'n elwa o ddysgu am fathau gwahanol o eiriolaeth a sut i gael gafael arno. Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag [advocacy@agecymru.org.uk](mailto:advocacy@agecymru.org.uk)

## Prosiect Eiriolaeth Dementia

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Prosiect Eiriolaeth Dementia Age Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gynhelir gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Aneurin Bevan, wedi sicrhau cyllid am 18 mis arall tan ddiwedd mis Mawrth 2026.

### [Llyfryn Prosiect Eiriolaeth Dementia](#)



## Meddwl Gyda'n Gilydd

Prosiect Eiriolaeth Dementia



Mae ein prosiect eiriolaeth dementia annibynnol yn galluogi pobl sydd wedi derbyn diagnosis o ddementia i gael mynediad at y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ac i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Mae'r prosiect yn darparu cefnogaeth mewn sefyllfaoedd pan mae perygl o gamdriniaeth, ac mae angen opsiynau i'w diogelu. Mae'r eiriolaeth a gynigiwn yn annibynnol o unrhyw wasanaeth arall sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia. Mae hyn yn golygu y bydd y person â dementia wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, a gallwn eu

[www.agecymru.org.uk/advocacy](http://www.agecymru.org.uk/advocacy)  
[dementiaadvocacy@agecymru.org.uk](mailto:dementiaadvocacy@agecymru.org.uk)  
029 2043 1555



cefnogi a'u cynrychioli'n ddiuedd. Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth, neu i wneud atgyfeiriad, e-bostiwch [dementiaadvocacy@agecymru.org.uk](mailto:dementiaadvocacy@agecymru.org.uk)

## Rhwydwaith Eiriolaeth

Mae ystod o rwydweithiau darparwyr eiriolaeth rhanbarthol wedi'u datblygu ledled Cymru i ategu gwaith y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Oedolion yng Nghymru. Mae'r rhwydweithiau'n gyfle i wasanaethau sy'n darparu eiriolaeth ar hyn o bryd, a'r rhai a hoffai wneud hynny yn y dyfodol, wella eu dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol yn y rhanbarth, dysgu am gyfleoedd comisiynu posibl yn y dyfodol a chael lle i rwydweithio a rhannu gwybodaeth a syniadau.

Isod mae manylion am y rownd nesaf o gyfarfodydd y rhwydwaith eiriolaeth a gynhelir trwy Zoom neu Teams

Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Oedolion  
12.12.24 10-12

Gwent  
14.1.25 10-12

Gogledd Cymru  
8.10.24 2-3.30  
21.1.25 2-3.30

Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe  
15.1.25 1-2.30

Y 3 Sir yng Ngorllewin Cymru  
7.1.25 10-12

Powys  
8.10.24 11-12.30  
8.1.25 11-12.30

Cwm Taf Morgannwg  
10.10.24 10-11.30  
16.1.25 10-11.30

Caerdydd a'r Fro  
l'w gadarnhau



# Pwysigrwydd Eiriolaeth 9

Adolygiad o wasanaethau eiriolaeth i oedolion yng Nghymru gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl hŷn



Dros y 18 mlynedd diwethaf mae Age Cymru wedi bod yn adolygu argaeledd gwasanaethau, materion sy'n ymwneud â chyllido a chynaliadwyedd, ansawdd gwasanaeth a hyfforddiant eiriolwyr, eiriolaeth a'i rôl yn y maes diogelu, hygyrchedd yn nhermau iaith a gwybodaeth a dealltwriaeth o newidiadau deddfwriaethol mewn eiriolaeth.

Pwysigrwydd Eiriolaeth 9 yw'r adroddiad diweddaraf mewn cyfres ddwyflynyddol o arolygon a gynhaliwyd gan Age Cymru ar ran y sector eiriolaeth yng Nghymru. Mae'n rhoi cipolwg wedi'i ddiweddarau o ddarpariaeth eiriolaeth yng Nghymru i oedolion, gyda phwyslais arbennig ar bobl hŷn.

Mae'r cyfanswm o bobl sy'n cael eu cefnogi, eiriolwyr taledig a gwasanaethau a ariennir i ddarparu eiriolaeth ledled Cymru i gyd wedi gostwng ers i'r arolwg diwethaf gael ei gyhoeddi yn 2022. Bu cynnydd bychan yn nifer y gwasanaethau eiriolaeth yn benodol ar gyfer pobl hŷn a chynnydd sylweddol yn nifer yr eiriolwyr gwirfoddol sy'n gweithio mewn amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth ledled Cymru.

Gwellwyd dadansoddiad o ymatebion yr arolwg trwy gynnal cyfweiliadau dilynol gyda rhai ymatebwyr, ynghyd â thrafodaethau mewn cyfarfodydd rhwydwaith eiriolaeth ledled Cymru.

Datgelodd y rhain fod llawer o'r gostyngiadau yn y ddarpariaeth oherwydd gostyngiadau cyllid mewn termau real. Adroddir bod y gostyngiadau hyn wedi deillio o'r diffyg cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru ar gyfer comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol, yn wahanol i'r cyllid a ddarperir i gomisiynu'r mathau statudol eraill o eiriolaeth, a chyfyngiadau i'r cyllidebau a gynigir gan gomisiynwyr statudol. Yn aml, mae'r cyllid yn ansicr ac ar gyfer y tymor byr, ac mae estyniadau o gyllid ar gyfer blwyddyn arall yn cael eu cynnig ar y funud olaf. Fel y rhagwelwyd yn ystod arolygon blaenorol Pwysigrwydd Eiriolaeth, mae cyflawni gofynion statudol ar gyfer comisiynu eiriolaeth wedi dargyfeirio cyllid oddi wrth fathau eraill o eiriolaeth lefel is, ataliol yn y gymuned. Felly, mae yna lai o'r gwasanaethau hyn ac mae rhai sefydliadau wedi gorfod dod a'u gwasanaethau eiriolaeth i ben, neu maen nhw wedi dod i ben yn gyfan gwbl fel sefydliad.

Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar lawer o bobl ledled Cymru; mae cynnydd yn nifer a chymhlethdod yr atgyfeiriadau wedi rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau eiriolaeth ar adeg pan mae cyllid nifer o'r sefydliadau wedi lleihau, yn ogystal â'u gwasanaethau ac eiriolwyr. Mae cynnydd sylweddol ac esbonyddol mewn achosion eiriolaeth rhieni a gostyngiad o ran amrywiaeth a nifer y gwasanaethau cymorth eraill y meddir cyfeirio pobl atynt hefyd wedi cynyddu'r pwysau ar wasanaethau eiriolaeth. Yn gyffredinol, mae'r galw cynyddol a chymhlethdod yr achosion yn golygu bod nifer o sefydliadau yn gorfod cefnogi llai o bobl, ac maen nhw wedi gorfod cyflwyno rhestrau aros am y tro cyntaf.

Mae'r argyfwng costau byw a'r lefelau uchel o chwyddiant hefyd wedi effeithio'n bersonol ar lawer o eiriolwyr. Gwaethygyd yr heriau hyn gan y diffyg cynnydd mewn cyflogau eiriolwyr, a ystyrir yn gyffredinol eu bod yn is na chyflogau proffesiynau medrus a chymwys tebyg. Mae cymhlethdod cynyddol gwaith achos wedi rhoi mwy o bwysau ar eiriolwyr. I lawer o sefydliadau mae wedi dod yn fwyfwy heriol felly i gadw a recriwtio eiriolwyr.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae eiriolwyr ledled Cymru yn parhau i ymdrechu i gynnig y cymorth gorau posibl i bobl sy'n ceisio cymorth i ddeall eu hawliau a lleisio eu barn.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad cyfan ac adroddiadau blaenorol Pwysigrwydd Eiriolaeth yma:

[Age Cymru | Pwysigrwydd Eiriolaeth \(ageuk.org.uk\)](https://ageuk.org.uk)

## Comisiynu a Chyngor am Eiriolaeth

Ar hyn o bryd mae llawer o drafodaethau strategaeth eiriolaeth yn cael eu cynnal sy'n arwain at gomisiynu, ac mae'r ddolen isod yn eich arwain at y Canllawiau Comisiynu a'r Pecyn Cymorth.

Comisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i Oedolion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

# Fframwaith a Phecyn Cymorth



[Canllawiau Comisiynu Eiriolaeth a Phecyn Cymorth](#)

## Wythnos Ymwybyddiaeth Eiriolaeth



Mae Wythnos Ymwybyddiaeth Eiriolaeth yn digwydd rhwng **14-18 Hydref 2024**.

Bob blwyddyn mae'r sector eiriolaeth yn dod at ei gilydd i dynnu sylw at thema wahanol. Eleni, rydyn ni'n pwysleisio effaith eiriolaeth a byddwn yn canolbwyntio ar adrodd straeon. Bydd pobl yn rhannu pethau fel blogiau a fideos ar-lein i ddathlu eiriolaeth a sut y gall eiriolaeth helpu pobl. Byddwn yn siarad am sut mae eiriolaeth wedi helpu pobl a pham mae eiriolaeth yn bwysig.

Lawrlwythwch y logos a'r adnoddau i helpu i rannu eich straeon a chodi ymwybyddiaeth am yr hyn y mae Eiriolaeth yn ei wneud yn eich cymunedau a'ch sefydliad.

[Wythnos Ymwybyddiaeth Eiriolaeth, Thema, Logos ac Adnoddau 2024](#)

## "Digwyddiad Mawr" Sector eiriolaeth oedolion Cymru yn 2024

Mae Prosiect HOPE yn edrych ymlaen at groesawu sector eiriolaeth oedolion Cymru i "Ddigwyddiad Mawr Eiriolaeth" am y bumed flwyddyn yn olynol.

Bydd y digwyddiadau ar-lein yn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu gwych, ychydig o hwyl ac amser i gysylltu a rhannu eich profiadau gydag eiriolwyr eraill o bob cwr o Gymru.

Bydd y ddwy sesiwn gyntaf, yn dilyn wythnos Ymwybyddiaeth Eiriolaeth, yn archwilio'r thema "Effaith a Chanlyniadau", gan ddathlu grym ac effaith ein gwaith eiriolaeth ar fywydau pobl. Mae siaradwyr gwadd gwych wedi'u trefnu a byddwn yn archwilio effaith eiriolaeth trwy adrodd straeon.

Bydd ail wythnos "Digwyddiad Mawr Eiriolaeth" yn cael ei chynnal ar y cyd ag Wythnos Diogelu Oedolion. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, byddwn yn gorffen drwy ganolbwyntio ar ein lles ein hunain drwy fwynhau rhywfaint o sbort a sbri. Mwy o fanylion i ddilyn.

Bydd mwy o fanylion yn cael eu rhannu cyn hir, gyda manylion am ein siaradwyr gwadd a mwy o wybodaeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, e-bostiwch Kath Hawkins, Swyddog Hyfforddi, Prosiect HOPE:

[katherine.hawkins@agecymru.org.uk](mailto:katherine.hawkins@agecymru.org.uk)

## Marc Ansawdd Perfformiad y Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant



Recognising quality  
in independent advocacy

an  NDTi Programme

parhaus wrth gefnogi sector eiriolaeth amrywiol i ddarparu eiriolaeth annibynnol o ansawdd uchel. Mae'r Broses Asesu wedi'i symleiddio i leihau'r baich gweinyddol wrth gynnal dull cadarn a thrylwyr y fersiynau blaenorol.

Mae'r Marc Ansawdd Perfformiad ar gael i ddarparwyr eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Nid yw'n cynnwys yr Alban. I gael gwybod mwy am Farc Ansawdd Perfformiad, ewch i'n gwefan:

<https://qualityadvocacy.org.uk/>

Yn ogystal, mae tîm Marc Ansawdd Perfformiad yn cynhyrchu cylchlythyr rheolaidd gyda'r newyddion a'r safbwyntiau diweddaraf yn y sector eiriolaeth. Os hoffech chi gofrestru er mwyn derbyn y cylchlythyr, cysylltwch â:

[support@qualityadvocacy.org.uk](mailto:support@qualityadvocacy.org.uk)

[Gallwch gwblhau Holiadur Cyn-asesu yma](#)

## Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant - Siarter Eiriolaeth

Ers ei lansio yn 2002, mae'r Siarter Eiriolaeth wedi cael ei derbyn yn eang ledled Cymru a Lloegr fel dogfen sy'n diffinio ac yn hyrwyddo egwyddorion eiriolaeth allweddol.

Yn dilyn sgysiau o fewn y sector eiriolaeth, mae'r Siarter Eiriolaeth wedi'i diweddarau i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisi.

Cliciwch ar y dolenni isod i lawrlwytho'r fersiynau PDF newydd.

[Poster Siarter Eiriolaeth A3 i'w Arddangos](#)

[Poster Siarter Eiriolaeth Hawdd ei Ddeall](#)



## Gwasanaethau Eiriolaeth yng Nghymru

Mae'r rhwydweithiau Eiriolaeth Rhanbarthol ledled Cymru wedi mapio'r gwahanol fathau o ddarpariaeth eiriolaeth yn eu hardaloedd. Mae manylion am y gwasanaethau eiriolaeth sydd ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru ar gael yma:

[Age Cymru | Gwasanaethau eiriolaeth yng Nghymru \(ageuk.org.uk\)](http://ageuk.org.uk)

## Cyngor Age Cymru

Gall llinell gyngor Age Cymru ddarparu cyngor diduedd am ddim am amrywiaeth o bynciau.

Efallai eu bod am gael cyngor ynglŷn â faint y dylent fod yn ei dalu am ofal anwyliad? Neu efallai y byddant am wybod a ydynt yn gymwys i gael Credyd Pensiwn ac eisiau help i'w hawlio?

Gall Cyngor Age Cymru helpu gyda'r holl faterion hyn, a mwy – ffoniwch ni heddiw

**0300 303 44 98**

### Cysylltwch â ni...

- I danysgrifio i'r e-fwletin neu'r cylchlythyr
- Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr erthyglau
- Os oes unrhyw beth yr hoffech ei weld yn yr e-fwletin neu gylchlythyr nesaf

E-bost: [sue.vaarkamp@agecymru.org.uk](mailto:sue.vaarkamp@agecymru.org.uk)

T: 02920 431565 Ext 565

Mae'r golygydd yn cadw'r hawl i newid erthyglau a gyflwynir i'w cyhoeddi. Nid yw Age Cymru o reidrwydd yn rhannu'r farn a geir yn y Cylchlythyr hwn.

Derbynnir hysbysebion a mewnosodiadau yn ddidwyll, ond nid yw cynhyrchion neu wasanaethau y cyfeirir atynt felly yn cael eu cymeradwyo na'u hargymell gan Age Cymru.

**Age Cymru**  
**Ground Floor**  
**Mariners House**  
**Trident Court**  
**East Moors Road**  
**Cardiff, CF24 5TD**

F: 029 2043 1555

E: [enquiries@agecymru.org.uk](mailto:enquiries@agecymru.org.uk)

[www.agecymru.org.uk](http://www.agecymru.org.uk)

Rhif elusen gofrestrdig: 1128436

Rhif cwmni cofrestrdig: 6837284

© Age Cymru 2023

